Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

6. Cyflogi a rheoli pobl

6.15 Polisi cyfle cyfartal

Mae hawl gan weithwyr i gael eu trin yn deg ac yn ystyrlon, a chefnogir hyn gan y gyfraith. Felly dylai mudiadau ymrwymo i gymryd camau pendant i hyrwyddo a chynnal cyfle cyfartal ymysg eu hymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr.

Dylai polisi cyfle cyfartal ddatgan gwerthoedd y mudiad ar gydraddoldeb ac amrywiaeth (tegwch) a sut y gweithredir y polisi. Bydd y polisi hefyd yn dangos i'r staff, recriwtiaid posib, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid fod y mudiad yn cymryd tegwch yn y gwaith o ddifri, ac yn helpu adnabod yr ymddygiad a ddisgwylir, yr ymddygiad sydd yn annerbyniol, a beth y gellir disgwyl o'r mudiad. Gall polisi cyfle cyfartal helpu mudiadau i dderbyn arian, gall danategu cynllun gweithredu'r mudiad a gall helpu'r mudiad i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae yna amryw ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n brwydro yn erbyn anffafriaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth. Y rhain yw:

- Deddf Cyflog Cyfartal 1970
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
- Deddf Cyflogaeth 2002
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006
- Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006

Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd polisi cyfle cyfartal, rhaid cael cefnogaeth pawb o fewn y mudiad, a bod yn rhan integrol o'r strategaeth fusnes. Dylid cynnwys rheolwyr ar bob lefel i ennill eu hymrwymiad, a datblygu'r polisi wedi ymgynghori â'r gweithwyr a'u cynrychiolwyr. Dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol o bolisi cyfle cyfartal y mudiad, ac mae'n ymarfer da i bob gweithiwr presennol a newydd i dderbyn hyfforddiant.

Mae'r canlynol yn enghraifft o bolisi cyfle cyfartal, a dylid ei addasu ar gyfer eich mudiad. Canllaw yw yn unig, ac ni ddylid edrych arno fel datganiad awdurdodol o'r gyfraith. Mae'r enghraifft yma yn canolbwyntio ar gyflogi a rheoli pobl. Efallai y byddwch eisiau cynnwys gofynion ychwanegol (e.e. trosglwyddo gwasanaeth, darparu gwasanaethau). Gweler Taflen Wybodaeth 2.9 am fwy o wybodaeth.

Polisi Enghreifftiol

Mae <*enw'r mudiad*> yn ymrwymo i ddileu anffafriaeth ac annog amrywiaeth ymhlith y gweithlu. Ein bwriad yw bod ein gweithlu yn wir gynrychioliad o bob adran o gymdeithas, a bod pob gweithiwr yn teimlo fod ganddo barch ac yn medru rhoi o'i orau.

I'r perwyl hwn, pwrpas y polisi yw darparu cydraddoldeb a thegwch i bob gweithiwr ac ymgeisydd, boed yn llawn amser neu'n rhan amser, a pheidio gwahaniaethu ar sail cenedl (gan gynnwys rhyw, priodas, newid rhyw), hil (gan gynnwys tarddiad ethnig, lliw, cenedligrwydd a tharddiad cenedlaethol), anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, neu oedran. *(DS efallai fod yna gategorïau eraill sy'n berthnasol i'ch mudiad neu amgylchiadau lleol e.e. aelodaeth undebau llafur, a ellir eu cynnwys yma).* Mae <*enw'r mudiad*> yn gwrthwynebu pob ffurf o anffafriaeth anghyfreithlon ac annheg.

1. Cyfrifoldeb

Rhoddir y cyfrifoldeb o sicrhau gweithrediad effeithiol polisi cyfle cyfartal <*enw'r mudiad*> i <*nodwch swydd y person*>. Bydd y cyfrifoldeb yma yn cynnwys sicrhau bod pob gweithiwr yn derbyn gwybodaeth am fanylion y polisi, ac yn ymwybodol o'i oblygiadau drwy ddarpariaeth hyfforddiant addas.

Mae gan bob rheolwr llinell gyfrifoldeb i hyrwyddo cyfle cyfartal, a dylent sicrhau bod eu dulliau gweithredu yn cydymffurfio â darpariaethau polisi cyfle cyfartal <*enw'r mudiad*>. Bydd perfformiad ac esiampl y rheolwyr yn hanfodol i wella cyfleoedd i bawb.
Mae gan weithwyr unigol ar bob lefel gyfrifoldeb i sicrhau fod cyfle cyfartal wedi'i ddarparu'n gyson ymhob ymarfer a gweithgaredd <*enw'r mudiad*>.

2. Recriwtio a dethol

Bydd <*enw'r mudiad*> yn ymdrechu i:

- Sicrhau fod pob gweithiwr yn cael ei recriwtio ar sail gallu a meini prawf perthnasol eraill.
- Gweithio tuag at sicrhau fod y gweithlu, trwy recriwtio, yn cynrychioli pob adran o'r gymdeithas yn well.
- Sicrhau ei fod yn cyfathrebu cyfleoedd swydd i bob adran o'r gymdeithas, gan sicrhau nad yw'n gwahaniaethu neu wrthod ceisiadau gan unrhyw ran o'r gymdeithas.
- Sicrhau fod pawb sy'n rhan o'r dethol a'r recriwtio yn derbyn hyfforddiant ar faterion cyfle cyfartal.
- Defnyddio deddfwriaeth addas fel fframwaith ar gyfer gweithredu i gefnogi'r broses recriwtio mewn ffordd gadarnhaol.
- Cynnig termau ac amodau cyflogaeth teg i weithwyr.

(DS Os oes gan y mudiad bolisi recriwtio a dethol ar wahân, dylid cyfeirio ato yn yr adran hon).

3. Hyfforddiant a datblygiad trefniadaeth

Bydd <*enw'r mudiad*> yn:

- Ceisio sicrhau datblygiad pob gweithiwr ynghylch darpariaeth cyfleoedd dysgu addas a chyraeddadwy parthed anghenion unigol a threfniadol.
- Sicrhau fod swyddi gwag yn agored i staff presennol.
- Sicrhau darpariaeth hyfforddiant cyfle cyfartal fel rhan o'r rhaglen gyflawn hyfforddi a datblygiad trefniadaeth.

(DS Os oes gan y mudiad bolisi hyfforddiant a datblygu ar wahân, dylid cyfeirio ato yn yr adran hon).

4. Monitro a Gwerthuso

Cynhelir monitro i fesur effeithiolrwydd polisi cyfle cyfartal <*enw'r mudiad*> , ac i wirio bod y polisi yn gweithio, a hefyd gweithredu fel sail ar gyfer cynlluniau'r dyfodol. Gwneir hyn drwy:

- Fonitro dulliau recriwtio a dethol i sicrhau nad oes anffafriaeth yn digwydd.
- Gwirio portread yr ymgeiswyr.
- Gwirio portread gweithlu <*enw'r mudiad*>.

5. Materion Disgyblaethol

Dylai pob gweithiwr fod yn ymwybodol o'r ffaith tra bod gweithiwr yn medru bod yn gyfreithiol atebol ar gyfer gweithrediadau anffafriaeth gan weithwyr, gellir hefyd bod yn gyfreithiol atebol ar gyfer y gweithrediadau anffafriaeth a wneir, awdurdodir, cyfrannir, neu a gyd-oddefir ganddynt parthed gweithwyr eraill ac aelodau'r cyhoedd.

Felly, dylai gweithwyr fod yn ymwybodol y bydd unrhyw doriad polisi cyfle cyfartal <*enw'r mudiad*> yn cael ei ddelio trwy bolisi Disgyblaeth <*enw'r mudiad*>.

6. Cwynion

Os oes gan weithiwr fater i'w drafod neu gŵyn parthed polisi cyfle cyfartal <*enw'r mudiad*> , dylent ddilyn polisi cwynion <*enw'r mudiad*>.

Os yw gweithiwr o'r farn ei fod, neu wedi bod, yn derbyn anffafriaeth neu aflonyddwch mewn unrhyw ffordd, dylid dilyn polisi bwlian ac aflonyddu <*enw'r mudiad*>.

Gwybodaeth bellach

Gweler Taflen Wybodaeth *2.9 Cyfleoedd Cyfartal*

ACAS
Ffôn: 08457 474747
www.acas.org.uk

The Commission for Racial Equality
Ffôn 020 7939 0000
Gwefan: www.cre.gov.uk

The Disability Rights Commission
Ffôn: 08457 622 633
www.drc.org.uk

The Equal Opportunities Commission
Ffôn: 0845 601 5901
www.eoc.org.uk

Acas Equality Direct Helpline
Ffôn: 08456 00 34 44
www.acas.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:26/08/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk